Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Chwarae Aberporth (CDCC)
**Y Festri**
**Ty Capel**
**Aberporth**
**Ceredigion**
**SA43 2DA**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2015**

**gan**


**Mr Eifion R Morgan**
**Arolygydd Cofnodol**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliada'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/11/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Chwarae Aberporth yn leoliad dwyieithog a sefydlwyd yn 1961. Symudodd i'w leoliad presennol, sef festri capel, yn 2008. Pentref bychan yw Aberporth ar arfordir Ceredigion, tua 5 milltir o Aberteifi. Mae'r plant sy'n mynychu'r cylch chwarae rhwng dwy a phedair oed ac mae'r lleoliad ar agor am bum bore'r wythnos yn ystod y tymor ysgol.

Mae'r plant yn cael eu denu o ardal ddaearyddol eang ac yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith. Does dim un plentyn o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae'r cylch chwarae wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i gymryd hyd at 21 o blant ym mhob sesiwn. Ar hyn o bryd mae 16 o blant ar y gofrestr, gan gynnwys 9 plentyn tair oed, gyda phob un ohonynt yn cael eu hariannu ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar.

Mae chwe aelod o staff llawn amser ac mae'r rolau arweinyddiaeth yn cael eu rhannu gan ddau o'r staff. Mae un arweinydd o'r cylch chwarae wedi bod yn ei swydd ers 25 mlynedd ac mae ei chydweithiwr wedi cael cyfrifoldebau arweinyddiaeth dros yr wyth mlynedd diwethaf. Mae gan yr holl staff gymwysterau a phrofiad addas o weithio gyda phlant ifanc.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Arolygydd Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru AGGCC ym Medi 2013 ac ym Mai 2012 gan Estyn.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Rhagorol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu hamser yn y lleoliad;
- mae'r profiadau dysgu o ansawdd da ac yn llwyddo i gymell y plant i ddysgu;
- mae'r ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu ysgogol ar gyfer y plant;
- mae lles y plant yn ragorol, ac mae'r holl blant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad;
- mae bron pob plentyn yn gwybod pa fwydydd sy'n iach ac yn gwybod sut i gadw'n lân ac iach;
- mae ansawdd y berthynas rhwng y staff a'r plant yn dda iawn ac wedi'i selio ar gyd-hoffter a pharch;
- mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar a chefnogol lle mae'r holl blant yn cael eu trin yn gyfartal;
- mae'r lleoliad yn darparu cefnogaeth ragorol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol;
- mae partneriaeth ragorol wedi'i sefydlu gyda'r rhieni ac yn hynod o effeithiol drwy gefnogi datblygiad y plant;
- mae'r plant yn cael amrywiaeth dda o ymweliadau, yn lleol ac ymhellach.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn ragorol oherwydd:

- mae gan yr arweinyddion weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r cylch chwarae;
- mae'r arweinyddiaeth wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod yr holl blant yn cyrraedd eu potensial llawn;
- mae'r ymarferwyr yn cyd-weithio'n dda gyda synnwyr clir o bwrpas;
- mae'r lleoliad yn hunan-feirniadol ac yn ceisio pob cyfle i wella ei ddarpariaeth;
- mae'r system hunanarfarnu a'r cynllunio strategol yn effeithiol;
- mae'r pwyllgor rheoli yn effeithiol ac yn gefnogol o ddatblygiad proffesiynol y staff;
- mae'n gweithredu'n mewn modd positif i gyngor ac awgrymiadau gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol;
- mae'n darparu gwerth da am arian.

## Argymhellion

A1 Mireinio asesu er mwyn nodi datblygiad medrau'r plant.

A2 Defnyddio canlyniadau'r asesu wrth gynllunio cyfleoedd dysgu er mwyn sicrhau bod y tasgau'n cyfateb yn dda ag anghenion y plant ac yn eu herio.

A3 Sicrhau bod rhieni yn ymwybodol o gynnydd eu plant a'r hyn maen nhw'n gallu ei wneud i gefnogi eu dysgu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig yn disgrifio'r arfer ragorol sydd wedi'i nodi yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn y lleoliad gyda lleiafrif yn gwneud cynnydd da iawn. Mae angen cymorth ychwanegol ar ychydig o blant, yn enwedig mewn iaith a lleferydd ac mae'r plant hyn yn gwneud cynnydd realistig. Mae'r rhan fwyaf o blant yn adalw dysgu blaenorol yn dda, fel cofio storïau maen nhw wedi eu clywed. Mae bron pob plentyn yn canolbwyntio am gyfnodau parhaus o amser ac yn dyfalbarhau ar dasgau. Mae'r holl blant yn dangos diddordeb yn eu gwaith, yn gwneud dewisiadau ac ar y cyfan mae'r rhan fwyaf o blant yn cyflawni'n dda.

Mae medrau gwrando'r rhan fwyaf o blant wedi eu datblygu'n dda, maen nhw'n ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau ac yn frwdfrydig i ateb cwestiynau am storïau sy'n cael eu darllen iddynt. Mae llawer o blant wedi datblygu sgiliau siarad da yn eu hiaith gyntaf, sef Saesneg. Maen nhw'n hapus i drafod yr hyn maen nhw'n ei wneud ac mae llawer yn barod i berfformio yn unigol, fel wrth ganu caneuon a hwiangerddi cyfarwydd. Mae'r mwyafrif yn trin offer bach ac offer ysgrifennu yn gymwys ac yn hyderus ac yn deall pwrpas ysgrifennu, fel gwneud rhestr siopa.

Mae llawer o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac roedd nifer yn hapus i ddewis eu hoff lyfr a siarad amdano gyda'r arolygydd. Mae'r plant yma'n dal eu llyfrau yn briodol, gan droi tudalennau a disgrifio'r stori. Siaradodd y plant yma am y cymeriadau yn y stori a'u teimladau. Roedd y rhan fwyaf o blant yn adnabod eu henwau wrth iddynt gael eu cyflwyno ar garden yn ystod cofrestru.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyfri'n gywir ac yn hyderus i naw, fel wrth gyfrif y nifer o blant sy'n bresennol yn ystod cofrestru. Mae llawer o blant yn datblygu geirfa fathemategol gwerth chweil fel nodi afalau mawr a bach. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn adnabod siapiau dau ddimensiwn sylfaenol, gan gynnwys trionglau, cylch a sgwâr ac mae'r plant mwyaf galluog yn adnabod siapiau o'r fath yn y byd tu allan pan ar ymweliadau i'r siopau lleol. Mae'r mwyafrif yn gwybod beth yw pwrpas arian.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant (TGCh) yn datblygu'n dda. Mae nifer o blant yn dangos sgiliau cyfrifiadurol gwerth chweil, fel wrth drafod llygoden y cyfrifiadur. Mae ychydig o blant yn dechrau dod i wybod sut i raglennu tegan digidol gyda chymorth oedolyn.

Mae'r holl blant yn mwynhau chwarae symudiad datblygiadol ar y mat meddal ac yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau yn yr awyr agored. Maen nhw'n dangos sgiliau corfforol da a chydsymud llaw-llygad priodol. Mae'r plant yn hyderus i beintio ac yn ystod gweithgareddau crefft, gan arddangos rhywfaint o waith medrus, fel yn ystod peintio bys. Mae medrau meddwl a datrys problemau'r plant wedi'u datblygu'n dda ac mae'r rhan fwyaf o blant yn gallu gwneud dewisiadau, fel dewis gweithgareddau yn ystod chwarae rhydd.

Yn y lleoliad dwyieithog hwn, mae medrau iaith Gymraeg y plant yn datblygu’n dda gan eu galluogi i fynychu’r ysgol gynradd Gymraeg leol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae’r holl blant yn deall mwy o’r iaith nag y gallant eu siarad. Mae’r rhan fwyaf yn ymateb yn brydlon i gyfarwyddiadau ac mae llawer yn dechrau defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg syml, fel yn ystod cofrestru ac amser cylch. Mae’r plant yn cyfrif yn y Gymraeg, yn gwybod enwau lliwiau sylfaenol ac agweddau o’r tywydd, fel "mae hi’n gymylog heddiw". Mae bron pob plentyn yn canu caneuon a hwiangerddi Cymraeg gyda mwynhad mawr.

**Lles: Rhagorol**

Mae lles y plant yn rhagorol. Mae pob plentyn yn hapus, yn frwdfrydig i fod yn bresennol gan adael eu rhiant neu ofalwr "heb ofal yn y byd". Maen nhw’n cymryd rhan ar unwaith mewn gweithgareddau sydd wedi’u gosod ar eu cyfer ac yn awyddus i gwrdd â’u ffrindiau. Mae pob un yn mwynhau cymryd rhan ac yn llawn cymhelliant. Maen nhw’n dangos medrau personol a chymdeithasol da iawn ac yn dangos gofal a chonsyrn am ei gilydd. O ganlyniad, mae’r lleoliad yn gymuned tawel a threfnus lle mae’r plant yn deall y drefn ddyddiol ac yn arddangos ymddygiad eithriadol o dda. Ni welwyd achosion lle roedd plentyn yn cael ei geryddu am unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae gan blant agweddau rhagorol at weithio a rhannu a chymryd eu tro wrth ddefnyddio offer chwarae.

Mae’r plant yn dewis pryd i gael eu byrbryd ac ychydig o atgoffa’n unig sydd angen i’w hatgoffa i olchi eu dwylo cyn bwyta. Maen nhw’n gwrtais ac yn dewis eu bwyd yn synhwyrol. Maen nhw’n cymryd eu hamser dros eu byrbryd ac yn siarad gydag oedolyn sy’n eu goruchwylio. Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn gwneud ymdrechion da i wisgo’u cotiau ac yn berffaith fodlon aros tra bod eraill yn cael eu helpu.

Mae’r holl blant yn mwynhau ymarfer corff, fel mynd ar gefn eu beiciau tair olwyn ac yn ymgysylltu’n gadarnhaol mewn chwarae symudiad datblygiadol.

Trwy eu hagweddau, mae’r plant yn dangos eu bod yn teimlo’n ddiogel ac yn gwybod ble i ofyn am gymorth os oes angen, fel wrth ddefnyddio teganau digidol neu’r cyfrifiadur. Maen nhw’n cymryd rhan lawn yn yr holl weithgareddau, fel yn ystod eu chwarae rôl yn "radio Aberporth" ac yn gwrando ar ei gilydd. Mae ymdeimlad cryf o gymuned ac mae pob plentyn yn cymryd rhan weithredol mewn digwyddiadau lleol, fel y carnifal lleol.

Agwedd ragorol o les y plant yw eu dealltwriaeth o wahanol emosiynau. Mae llawer o blant yn gallu adnabod teimladau, fel wrth arsylwi cymeriadau mewn stori sy’n dangos wyneb drist. Mewn trafodaeth, nododd y plant pam y gall person fod yn drist a’r hyn sy’n ei wneud yn hapus. Maen nhw hefyd yn adnabod emosiynau o’r fath yn eu ffrindiau. Mae nifer o blant yn gallu awgrymu i’r arolygydd beth sy’n eu gwneud yn hapus a’r hyn y gallent ei wneud os oes un o’u ffrindiau yn drist.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r profiadau dysgu yn darparu'r plant ag ystod eang addas o gyfleoedd diddorol sy'n eu symbylu a'u cymell. Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn gytbwys ac yn cwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen yn llawn. Mae pwyslais priodol ar blant yn dysgu trwy chwarae a chydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a'u cyfeirio gan oedolyn.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol iawn o fapiau meddwl sy'n cael eu datblygu gyda'r plant ac mae hyn yn sicrhau bod pawb yn cymryd rhan weithredol wrth gynllunio'r profiadau dysgu. Nodwedd dda a nodedig arall o'r cynllunio yw'r dull cyfannol i ddysgu sy'n cael ei fabwysiadu. Mae'r pynciau yn cynnwys gweithgareddau sy'n cysylltu'n briodol. Gyda'r pwnc hydref fel y ffocws dysgu, roedd y dysgu'n cynnwys iaith (Cymraeg a Saesneg), rhifedd (cyfri'r afalau ar y ddaear), iaith fathemategol (afalau mawr / bach), bwyta'n iach, ailgylchu a chompostio gwastraff. Mae cyfleoedd i ddatblygu medrau'r plant yn cael eu hymgorffori gan gynnwys eu medrau meddwl, fel sut mae anifeiliaid yn paratoi ar gyfer y gaeaf. Mae'r cynllunio'n canolbwyntio ar ddatblygu medrau'r plant ond nid yw bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar herio'r plant ac ar gyfateb y gwaith i'w galluoedd unigol.

Mae'r lleoliad yn darparu'r plant â chyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae amser cylch a chofrestru yn y bore yn cael eu defnyddio'n dda i ddatblygu sgiliau gwrando a siarad y plant. Mae amser stori a chanu hefyd yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus i hyrwyddo sgiliau o'r fath. Mae'r plant yn dysgu adnabod eu henwau yn ystod cofrestru ac mae ganddynt fynediad hawdd at lyfrau yn eu cornel lyfrau gyfforddus. Mae cyfleoedd addas i blant ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu cynnar, fel gwneud rhestrau siopa yn eu siop deganau.

Mae'r ymarferwyr yn annog medrau rhifedd plant yn dda drwy gyfleoedd rheolaidd i gyfrif, didoli a chyfateb gwrthrychau, fel ar ymweliadau â'r siopau, cyfrif selsig yn y siop gigydd a'u didoli i mewn i grwpiau ar ôl eu coginio. Mae taith i'r traeth tywodlyd ar lan y môr yn darparu cyfleoedd diddorol a gwerth chweil i blant atgyfnerthu eu sgiliau cyfrif, ac i ddidoli a chyfateb gwrthrychau yn ôl eu maint.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da iawn i ddatblygu eu medrau technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae ganddynt fynediad rhydd i gyfrifiadur a chymorth rheolaidd gan aelod o staff. Mae'r plant yn gyfarwydd â theganau sy'n cael eu rhaglenni ac offer recordio digidol ac mae ganddynt fynediad at ddyfeisiau gwrando.

Mae'r cynllunio'n cynnwys cyfleoedd i blant ddatblygu eu sgiliau corfforol drwy "Chwarae Symudiad Datblygiadol" ac ymarferion cadarn ar feiciau tair olwyn tu allan. Mae pwyslais priodol yn cael ei roi ar ddatblygiad sgiliau echddygol manwl y plant, fel torri drwy ddefnyddio siswrn, sticio a gludo ac wrth baentio, fel paentio gyda bysedd.

Mae datblygiad iaith Gymraeg y plant yn cael lle amlwg drwy ddefnyddio'r iaith yn ystod amser cylch a chofrestru a thrwy defnydd o Gymraeg achlysurol gan y staff. Mae ffocws cryf ar draddodiadau a diwylliant Cymru. Mae'r plant yn dathlu Dydd

Gŵyl Dewi drwy wisgo'n briodol, gan wneud bwydydd, fel pice ar y maen, a thrwy dynnu llun a pheintio. Mae'r lleoliad yn dathlu Diwrnod Santes Dwynwen ac yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau cymunedol, fel cyngherddau pentref.

**Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd fel tîm, gan wneud defnydd hynod effeithiol o'u cryfderau a'u harbenigedd unigol. Cafodd hyn ei ddangos yn dda pan gymerodd aelod o staff sesiwn adrodd stori gwych, gyda'r plant yn gwrando'n astud iawn. Mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchedd dysgu cyffrous ac ysgogol sy'n hyrwyddo cyfranogiad a mwynhad y plant. Mae'r ymarferwyr yn mwynhau gweithio gyda'r plant; yn adnabod y plant yn dda ac yn eu parchu fel unigolion. Maen nhw'n eu hannog yn weithredol i ddyfalbarhau, ac i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Mae'r staff wedi sefydlu trefn bwrpasol y mae'r plant yn ei deall, ac mae hyn yn sicrhau bod y plant yn ymgartrefu'n gyflym, yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod sut i ofyn am gymorth yn ôl yr angen. Mae'r staff yn defnyddio canmoliaeth yn gynnil ond yn effeithiol i reoli ymddygiad y plant mewn ffordd gadarnhaol ac mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddarparu amgylchedd dysgu hapus a phwrpasol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gyda'i gilydd ac yn gwneud defnydd dychmygus o syniadau'i gilydd. Mae'r staff yn nodi syniadau ar y pryd mewn "llyfr syniadau staff" ac mae hyn yn darparu "aide memoire" ddefnyddiol wrth gynllunio gweithgareddau i'r dyfodol. Mae'r cynllunio'n darparu cyfleoedd gwerth chweil i blant ddysgu trwy chwarae a phrofiadau uniongyrchol. Mae cydbwysedd da rhwng chwarae sy'n cael ei gychwyn gan y plentyn a'i gyfeirio gan oedolion ac mae'r ymarferwyr yn gwybod pryd i fod yn rhan o weithgareddau chwarae'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i fod yn annibynnol, ond bob amser yn barod i gefnogi unigolion, fel pan fydd y plant yn canu gyda meicroffôn. Mae'r ymarferwyr yn fodelau iaith effeithiol ac mae hyn yn helpu'r plant i ddatblygu eu sgiliau siarad a'u dealltwriaeth yn yr iaith Gymraeg.

Mae'r holl ymarferwyr yn cymryd rhan mewn asesu rheolaidd a chynhwysfawr o ddysgu'r plant. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ymwybodol o'u hanghenion a'u galluoedd. Mae cofnodion unigol o gyflawniad yn cael eu nodi o dan feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r cofnodion asesu, fodd bynnag, yn rhy gyffredinol heb ganolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygiad sgiliau. O ganlyniad, mae eu defnydd yn gyfyngedig o ran cynllunio profiadau dysgu i'r dyfodol er mwyn sicrhau bod tasgau'n cyfateb yn dda i anghenion plant unigol ac yn eu herio'n addas.

Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant trwy gyfarfodydd anffurfiol ac adroddiadau ysgrifenedig. Mae'r rhieni yn cael gwybod am weithgareddau mae eu plentyn wedi cymryd rhan ynddynt yn ystod sesiynau'r bore, ond nid ydynt yn rhoi digon o wybodaeth ynghylch yr hyn y gallant ei wneud i'w helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae gan y lleoliad ddarpariaeth ragorol ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant a'u datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd gofalgar a chefnogol da iawn, lle mae'r holl blant yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu fel unigolion. Mae gwerthoedd pwysig fel gonestrwydd, goddefgarwch a pharch at ei gilydd yn nodwedd amlwg iawn ym mywyd beunyddiol y lleoliad. Mae'r plant yn deall y gwerthoedd hyn yn dda iawn ac yn ymddwyn yn unol â hynny. Mae'r plant yn parchu oedolion ac yn gwerthfawrogi eu cyfeillgarwch. Mae'r rhyngweithio effeithiol iawn rhwng oedolion a phlant yn datblygu hyder y plant, eu hannibyniaeth a'u teimlad o hunan-werth yn llwyddiannus iawn. Mae'r ymarferwyr yn gwneud amser i wrando ar blant; mae'u cyflawniadau yn cael eu dathlu a'u rhannu gyda'r dosbarth.

Mae'r plant yn dewis pryd i gael eu byrbryd a'r hyn maen nhw am ei fwyta. Maen nhw'n ymwybodol iawn o lendid ac mae llawer yn golchi eu dwylo cyn bwyd heb anogaeth. Maen nhw'n barchus gan ddefnyddio "os gwelwch yn dda" a "diolch" yn briodol ac yn adnabod bwydydd iach. Mae'r byrbrydau yn ddigwyddiadau cymdeithasol rhagorol.

Mae'r plant yn dysgu am ailgylchu drwy gasglu gwastraff bwyd ar gyfer compostio a defnyddio compost ar gyfer tyfu planhigion a hadau.

Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo plant i'r ysgol gynradd wedi'u sefydlu'n dda.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r lleoliad yn cynnig amgylchedd diogel. Mae'r drysau yn cael eu cloi ac ni all neb ddod i mewn neu adael yn ddi-rybudd. Mae'r ardal allanol wedi'i nodi'n glir ac mae'r staff yn wyliadwrus wrth sicrhau diogelwch y plant wrth chwarae y tu allan. Mae trefniadau priodol yn eu lle i dderbyn plant yn y bore ac i sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu ofalwr adnabyddus pan fyddant yn gadael.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhagorol. Mae anghenion yn cael eu nodi'n gynnar gan y staff profiadol sy'n sicrhau ymyrraeth brydlon. Mae aelodau medrus o'r staff sydd â chymwysterau da yn cyflwyno cymorth o ansawdd uchel; mae gan bob plentyn o'r fath gynlluniau addysg unigol yn nodi targedau priodol. Mae cynnydd y plant yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'r rhieni'n cael eu cynnwys ym mhob cam. Mae'r holl blant yn gwneud cynnydd da iawn tuag at gwrdd â'u targedau ac yn aml yn gwneud yn well na'r disgwyl. Mae'r cysylltiadau da gydag athrawes dosbarth derbyn yr ysgol gynradd yn sicrhau bod dilyniant yn y gefnogaeth mae'r plant yn ei derbyn. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da iawn o wasanaethau arbenigol gan weithio mewn partneriaeth â rhieni ac asiantaethau, fel iaith a lleferydd, a Chynllun Cyfeirio'r awdurdod lleol, yn ôl yr angen.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r lleoliad yn darparu amgylchedd hapus a chroesawgar ar gyfer y plant. Mae’r plant yn cael eu parchu fel unigolion ac mae hyn yn eu hannog i drin ei gilydd â pharch a phryder. Mae pwyslais cryf ar adnabod amrywiaeth. Mae agweddau goddefgar yn cael eu hannog a’u cyflawni yn ymarferol. Mae’r plant yn adnabod ac yn dathlu amrywiaeth, fel wrth ddathlu gwahanol wyliau, gan gynnwys y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Divali.

Mae’r lleoliad wedi’i staffio’n hael gydag ymarferwyr profiadol sydd â chymwysterau da. Mae’r adnoddau yn addas i oedran y plant ac yn hygyrch iddynt. Mae’r ardaloedd o weithgareddau wedi eu gosod allan yn dda ac yn darparu cyfleoedd dysgu deniadol ar gyfer y plant. Mae defnydd da iawn yn cael ei wneud o’r gofod sydd ar gael ac mae’r plant yn manteisio ar hyn. Tu fewn, mae hwn yn amgylchedd dysgu deniadol lle gwneir y defnydd gorau o’r holl ofod sydd ar gael.

Mae’r adeilad wedi’i chynnal a’i chadw’n dda, ac mae’n ddiogel. Nid yw’r ardal yn yr awyr agored, fodd bynnag, yn caniatáu ar gyfer mynediad rhydd i’r plant oherwydd strwythur cyffredinol yr adeilad. Er bod hyn yn anfantais sydd heb ateb, mae’r lleoliad yn gwneud yn iawn i’r plant drwy ymweliadau lleol a thu hwnt. Mae’r ymweliadau wedi’u cynllunio’n dda iawn ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn i ddysgu’r plant yn y modd maen nhw’n cael eu hintegreiddio’n dda i mewn i’r cwricwlwm. Mae’r lleoliad hefyd yn elwa o allu defnyddio cyfleusterau yn yr ysgol gynradd leol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae’r lleoliad yn elwa o arweinyddiaeth hynod effeithiol gan ddau ymarferydd cymwys a phrofiadol iawn. Mae’r trefniant hwn wedi bod ar waith am yr 8 mlynedd ddiwethaf ac mae eu cyfraniadau yn ategu ei gilydd yn ddychmygus yn yr hyn maen nhw’n ei gynnig. Maen nhw’n cael eu cefnogi’n dda iawn gan y Cadeirydd a’r Pwyllgor Rheoli.

Mae gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad wedi cael ei sefydlu sy’n canolbwyntio ar safonau uchel o gyflawniad a lles y plant. Mae’r berthynas eithriadol o dda gyda’r rhieni wedi bod yn sail i gyflawniadau llwyddiannus y lleoliad dros y blynyddoedd.

Mae’r staff yn gweithio’n effeithiol iawn fel tîm ac mae pob un yn cyfrannu’n adeiladol i waith y lleoliad. Mae’r arweinyddiaeth yn sicrhau bod arbenigedd y staff yn cael ei defnyddio’n dda ac mae pob un yn dangos ymrwymiad cryf i ddarparu’r profiadau gorau posibl i’r plant. Mae’r staff yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion sy’n codi ac i gynllunio gweithgareddau dysgu ar gyfer y dyfodol.

Mae rheoli perfformiad wedi ei sefydlu’n dda ac mae’r holl staff yn cael eu gwerthuso’n flynyddol. Mae anghenion hyfforddi yn cael eu nodi ac mae’r cofnodion staff yn dangos eu bod wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o gyrsiau hyfforddi

perthnasol o fewn yr awdurdod. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth y lleoliad ac yn cael effaith amlwg ar gyflawniad a lles y plant.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli yn ymwelydd rheolaidd ac yn rhoi cymorth da ar gyfer y lleoliad. Mae hi wedi bod yn y swydd am y chwe blynedd ddiwethaf ac mae hyn wedi darparu parhad ac arbenigedd da. Mae’r pwyllgor rheoli yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cael eu hysbysu am ddatblygiadau yn y lleoliad. Maen nhw’n gefnogol iawn o’r staff, yn enwedig wrth gefnogi eu datblygiad proffesiynol. Mewn un achos, mae aelod o staff wedi canolbwyntio ar ddatblygu ei harbenigedd i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn wedi bod yn arbennig o lwyddiannus fel bod plant ag anghenion o’r fath yn cael eu hadnabod yn gynnar, a bod rhaglen wedi’i datblygu i gwrdd a’u hanghenion gydag asiantaethau allanol yn cael eu defnyddio yn ôl yr angen. Mae hyn wedi profi i fod yn fenter hynod o effeithiol.

Mae’r lleoliad wedi gweithredu blaenoriaethau cenedlaethol yn gyson, fel gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae hefyd wedi bod ar flaen y gad wrth sefydlu mentrau Bwyta’n Iach ac mae hyn wedi cael ei gydnabod gan yr awdurdod lleol.

Mae’r lleoliad yn aelod o Gymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru (CDCC) gan dderbyn marc rhagoriaeth Sicrhau Ansawdd yn 2012. Roedd hyn wedi codi ysbryd y staff a chydnabod ansawdd eu darpariaeth.

Mae’r arweinydd a’r staff wedi sefydlu partneriaeth rhagorol ac arloesol gyda’r rhieni. Yn y blynyddoedd diwethaf mae’r lleoliad wedi trefnu cyrsiau i rieni a gofalwyr sydd wedi cynnwys cyrsiau iaith Gymraeg, adrodd straeon, celf a chrefft yn y cartref a sut i gynnwys plant mewn gweithgareddau fel siopa. Mae’r ymateb gan rieni wedi bod yn gadarnhaol iawn gan gyfeirio yn arbennig at sut mae’r berthynas rhwng rhieni a phlant wedi gwella yn y cartref. Mae’r staff hefyd wedi ymateb yn gadarnhaol i gymorth a chefnogaeth sydd angen gan rieni.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae’r ymarferwyr yn adnabod eu lleoliad yn dda ac mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio drwy waith y lleoliad. Mae’r ymarferwyr wedi gweithio gyda’i gilydd ers peth amser ac maen nhw’n agored i syniadau newydd a ffyrdd gwahanol o weithio. Maen nhw’n rhannu eu harbenigedd, a thrwy drafodaeth yn y cyfarfodydd staff wythnosol maen nhw’n defnyddio eu syniadau yn gadarnhaol wrth gynllunio cyfeiriad y lleoliad ar gyfer y dyfodol. Mae ymrwymiad cryf i ddarparu’r profiadau gorau posibl i’r plant a gwneud y gorau o’u potensial. Mae hunanarfarnu yn rhoi ystyriaeth dda i farn y plant, eu rhieni a’u gofalwyr, y pwyllgor rheoli a staff ymgynghorol yr awdurdod lleol.

Mae’r dogfennau hunanarfarnu yn drylwyr iawn ac yn llwyddo i adnabod cryfderau’r lleoliad a’r meysydd i’w datblygu. Mae’r targedau ar gyfer gwelliant yn cael eu nodi’n glir ac mae strategaethau cadarn ar waith i sicrhau’r gwelliant sydd ei angen. Mae’r cyllid yn cael ei ddyrannu’n briodol.

At ei gilydd, mae'r lleoliad wedi elwa o hunan-werthusiad rheolaidd a pharhaus ac mae'r camau sydd wedi'u cymryd wedi cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ac wedi arwain at welliannau mewn safonau cyflawniad a lles.

Agwedd ragorol o'r weithdrefn hunanarfarnu yw'r ffocws ar gynnydd a chyflawniad y plant a'r ffordd mae'r holl staff wedi chwarae rhan mewn cyflawni'r amcanion yma.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Rhagorol**

Mae gan y lleoliad ystod ragorol o bartneriaethau sy'n cyfrannu'n effeithiol iawn at ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer y plant.

Mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni yn arwain y sector.  Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r gofal sy'n cael ei ddangos gan yr ymarferwyr, gan gynnwys pob agwedd ar fywyd yn y lleoliad.  Mae gwybodaeth ddefnyddiol yn cael ei darparu ar gyfer rhieni mewn llyfryn gwybodaeth ac maen nhw'n ymweld â'r lleoliad cyn i'w plentyn ddechrau yn ffurfiol.  Mae'r rhieni yn falch iawn o'r cynnydd y mae eu plant yn ei wneud o ran eu cyflawniad a'u sgiliau cymdeithasol.  Nodwedd ragorol yw'r ddarpariaeth a ddarperir gan y lleoliad trwy gyrsiau a mentrau eraill i helpu rhieni ddatblygu eu sgiliau magu plant.  Mae nifer o rieni wedi elwa drwy helpu yn wirfoddol yn y lleoliad ac mae nifer wedi mynd ymlaen i ennill cymwysterau proffesiynol mewn meysydd fel gofal plant.  Mae ymateb rhieni wedi bod yn rhagorol ac maen nhw'n werthfawrogol iawn o fentrau o'r fath.  Mae rhieni'r plant sydd wedi'u nodi fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn werthfawrogol iawn o drefniant y lleoliad ar gyfer cefnogi plant o'r fath.  Ceir cysylltiadau cryf ac effeithiol gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r cymorth lleferydd ac iaith a Chynllun Cyfeirio'r awdurdod lleol.

Mae awgrymiadau'r rhieni ar gyfer gwella yn cael eu defnyddio'n adeiladol ac maen nhw'n adrodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.  Mae cysylltiadau da iawn ar waith gyda'r ysgol gynradd leol ac mae hyn yn hwyluso trosglwyddiad y plant i'r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae cysylltiadau cryf gyda'r gymuned leol gyda nifer o ymwelwyr i'r ysgol ac ymweliadau'r plant i'r gymuned.  Mae cysylltiadau hefyd â'r Cylch Meithrin lleol, fel cyfuno ar gyfer cyngherddau Nadolig.

Mae'r bartneriaeth adeiladol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol yn effeithiol iawn ac yn helpu i godi safonau drwy ddarparu'r lleoliad â chyngor ac awgrymiadau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r adnoddau'n cael ei reoli'n dda i gefnogi'r dysgu. Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n hael gyda staff cymwys a phrofiadol sy'n mynychu cyrsiau hyfforddi perthnasol yn rheolaidd. Mae'r staff yn gyfathrebwyr effeithiol iawn ac yn darparu cwricwlwm o ansawdd da i gefnogi dysgu'r plant. Mae'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol fel tîm i sicrhau darpariaeth o ansawdd da iawn ar gyfer y plant. Mae'r ymarferwyr yn cymryd cyfrifoldeb am agweddau o'r addysgu ac mae hyn yn gwneud y defnydd gorau o'u sgiliau unigol. Mae'r adnoddau yn dda, o ansawdd da ac yn hygyrch i'r plant. Mae'r ardaloedd o weithgareddau yn darparu lleoedd deniadol i'r plant weithio a chwarae gan eu hysgogi a'u cymell yn llwyddiannus.

Mae'r arweinwyr a'r pwyllgor rheoli presennol yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r penderfyniadau cyllideb ac mae'r gwariant yn cael eu blaenoriaethu yn unol ag anghenion y lleoliad. O ystyried y defnydd effeithlon o arian, ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniad y plant, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol - Mr Eifion R Morgan**

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |